

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

DYDDIAD: 30.3.23

LLEOLIAD: Siambr y Cyngor, Penmorfa

TEITL: Egwyddorion isadeiledd cynaliadwy ar gyfer addysg

PWRPAS YR ADRODDIAD: Er Gwybodaeth

**RHESWM PAM BOD Y
PWYLLGOR WEDI GOFYN
AM Y WYBODAETH:** O ganlyniad i'r angen am ddiweddarau gweithdrefnau ad-drefnu ysgolion

CEFNDIR:

Ym mis Tachwedd 2018, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei chôd statudol o ran trefniadaeth ysgolion a chyflwynodd gymal rhagdybiaeth yn erbyn cau ar gyfer ysgolion gwledig. Mae diffiniad ysgol wledig wedi'i bennu gan Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio categorïau gwledig a threfol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac o ganlyniad, mae 28 o ysgolion yng Ngheredigion wedi'u diffinio fel ysgolion gwledig.

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 15 Medi 2021, diddymwyd y Polisi Adolygu Ysgolion a mabwysiadwyd y llawlyfr i gyd-fynd gyda Chôd Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Atodiad B).

Cynhaliwyd gweithdy i gyflwyno'r llawlyfr (Atodiad C).

Gyda Dogfen Datblygu Addysg hyd 2020 (Atodiad D) wedi dod i derfyn, mae'n amserol cyflwyno dogfen sy'n amlinellu egwyddorion y gwasanaeth i'r dyfodol.

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:

Mae'r côd statudol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddilyn cyfres o weithdrefnau a gofynion manylach wrth lunio cynnig i gau ysgol weledig, wrth ymgynghori ar y cynnig hwnnw, ac wrth benderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig i gau ysgol wledig.

Cyn penderfynu a ddylid mynd ati i gynnal ymgynghoriad, mae'n rhaid paratoi a chyflwyno papur cynnig i'r Ffrwd Waith Cymunedau sy'n Dysgu. Yn dilyn cyfarfod y Ffrwd Waith Craffu, cyflwynir y papur cynnig i'r Cabinet i ystyried a ddylid:

- a) Cymeradwyo'r cynnig a mynd ati i gynnal ymgynghoriad statudol
- b) Gwrthod y cynnig
- c) Cynnig opsiwn amgen

Yna bydd y papur cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n Dysgu cyn cynnal Ymgynghoriad Statudol.

Bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei selio ar yr Egwyddorion yn Atodiad A ynghyd â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/school-organisation-code-second-edition.pdf>)

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

Oes Aseiad Effaith Integredig Na – dim newid mewn wedi ei gwblhau? **Os na,** Polisi esboniwch pam
Crynodeb:
Hirdymor:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:
Integreiddio:

ARGYMHELLION:

- (i) Argymhell i'r Cabinet gymeradwyo'r Ddogfen Egwyddorion isadeiledd cynaliadwy (Atodiad A) ar gyfer addysg; a
- (ii) Cadarnhau aelodaeth y ffrwd waith trawsbleidiol a fydd yn trafod unrhyw bapurau cynnig a ddaw gerbron yn unol â'r Llawlyfr Trefniadaeth Ysgolion

RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Bod Strategaeth mewn lle ar gyfer isadeiledd addysg i'r dyfodol.

Enw Cyswllt: Meinir Ebbsworth
Swydd: Prif Swyddog Addysg
Dyddiad yr Adroddiad: 10.2.23
Acronymau:
Papurau cefndirol: Cod Trefniadaeth Ysgolion (Atodiad B)
Llawlyfr Trefniadaeth Ysgolion 2021 (Atodiad C)
Datblygu Addysg 2020 (Atodiad D)

